**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**24ain Medi 2007**

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU LLEIHAU RISG DRAFFT 2008-09 YR AWDURDOD**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** I hysbysu aelodau o'r ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2008-09 yr Awdurdod; i geisio argymhelliad i'r Awdurdod Llawn mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu; ac i gytuno ar eiriad arfaethedig ymateb yr Awdurdod i'r materion godwyd.

**Cyflwyniad**

**2.** Rhoddodd Aelodau gymeradwyaeth i ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Lleihau Risg drafft 2008-09 ar Fehefin 18fed 2007.

**3.** Yn unol â'r canllawiau gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ymgymerwyd â phroses ymgynghori 12 wythnos gynhwysfawr, a derbyniwyd ymatebion hyd at ac yn cynnwys y dyddiad cau o 7fed Medi 2007.

**Gwybodaeth**

**4.** Anfonwyd dogfen ymgynghorol mewn lliw at 918 o unigolion a sefydliadau allanol ar ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf, mewn 34 o gategorïau o ymgynghorwyr. Dosbarthwyd 69 o gopïau ychwanegol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Môn, Sioe Meirionydd a Sioe Dinbych a Fflint.

**5.** Geiriwyd llythyrau eglurhaol i Aelodau o'r Cynulliad, Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd Ewropeaidd gan gynnwys gwahoddiad agored i drafod y cynigion mewn mwy o fanylder os y dymunent.

**6.** Dosbarthwyd 450 o gopïau i staff ar holl safleoedd y Gwasanaeth, yn ogystal â'r rhai hynny ar secondiad, salwch tymor hir, absenoldeb mamolaeth ac absenoldebau eraill. Rhoddwyd negeseuon i staff drwy gyfathrebiadau mewnol i'w hysbysu o'r ymgynghoriad ac i annog cyfranogaeth.

**7.** Trosglwyddwyd rhaglen o ymweliadau personol i bob gwylfa yn y tair gorsaf dân shifft 24 awr ac yn y pum gorsaf dân criw dydd gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau), i roi cyfle i bersonél drafod y cynigion, ac i'w hannog i gyflwyno eu ymatebion ysgrifenedig. Roedd y rhaglen arferol o ymweliadau â gorsafoedd gan y Prif Swyddogion yn parhau yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

**8.** Rhoddwyd cyflwyniadau i staff a chynrychiolwyr staff gan gwmni allanol a Phrif Swyddogion ar sut fyddai system restru newydd yn cael ei ffurfweddu, a sut allai'r math yma o ffurfweddu ryddhau adnoddau.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**9.** Roedd fersiwn electroneg ar gael ar wefan yr Awdurdod o 19eg Mehefin 2007 ymlaen.

**10.** Derbyniwyd cyfanswm o 62 o ymatebion ysgrifenedig, gyda 52 ohonynt yn cyrraedd yn ystod wythnos olaf yr ymgynghoriad. Ni dderbyniwyd ymatebion gan staff yr Ystafell Reoli na Staff Cefnogi, ond roedd oddeutu 61% o'r ymatebion wedi eu derbyn gan staff. Mae'r ffaith nad oedd rhai ymatebion electroneg yn datguddio manylion llawn y person sy'n ymateb yn golygu nad oes modd gwneud dadansoddiad manwl. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd Undeb y Brigadau Tân wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig.

**11.** Mae'r lefel yma o ymatebion yn cymharu gyda 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu y Cynllun Integredig Rheoli Risg yn Hydref 2003, 3 i'r ail yn 2004, 35 i'r trydydd yn 2005 ac 16 i'r pedwerydd yn 2006.

**12.** Darllenwyd a dadansoddwyd pob ymateb, ac mae detholiad o unai sylwadau unigol neu rai sy'n cynrychioli nifer o sylwadau tebyg a gyflwynwyd wedi eu cyflwyno yn yr Atodiad, gydag ymateb drafft i'r materion godwyd oddi wrth yr Awdurdod.

**13.** Mewn cyferbyniad i'r llynedd, nid oedd y mwyafrif o'r ymatebion dderbyniwyd eleni yn cefnogi'r cynigion yn y ffurf y cawsant eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori. Roedd llawer yn siomedig nad oedd costau manwl a chynlluniau gweithredu llawn wedi cael eu cwblhau eisoes a'u cynnwys yn y cam ymgynghori.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**14.** Roedd pryderon eraill gan staff am sut allai'r cynigion effeithio eu bywyd gwaith a phersonol gartref, ac roedd nifer fechan yn cynnig awgrymiadau am fesurau amgen. Roedd y geirio unai yr union yr un fath neu yn debyg iawn mewn nifer o ymatebion, yn awgrymu fod ymgyrchu wedi digwydd i raddau neu rannu ymatebion.

**Argymhellion**

**15.** Fod aelodau

**15.1** yn nodi'r ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu Lleihau Risg Drafft 2008-09;

**15.2** yng ngoleuni'r ymatebion dderbyniwyd, ac er mwyn llunio argymhelliad i'r Awdurdod Tân llawn yn ei gyfarfod nesaf, fod Aelodau yn penderfynu sut i symud ymlaen gyda gweithredu'r pedwar cynnig ar gyfer 2008-09, a

**15.3** chytuno ar eiriad terfynol ei ymateb i'r sylwadau ysgrifenedig gyflwynwyd gan ymgynghorwyr ar y cynllun gweithredu Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008-09 fel a gyflwynid yn Atodiad 1.